# Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn i Gomisiynydd y Gymraeg

# Rhagfyr 2023

## RHAGARWEINIAD

1. **Gair am yr adroddiad hwn.** Dyma Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (MODWLS) i Gomisiynydd y Gymraeg, a gyflwynir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau polisi yn y Cynllun Iaith yn ystod 2023.

2. **Gwybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn.** Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun Iaith yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

3. **Rheoli'r Cynllun Iaith.** Paul Lincoln, Ail Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfiad cyfreithiol yr Adran â'r Cynllun Iaith. Rheolir y Cynllun Iaith ar ei ran gan dîm Stiwardiaeth Gwybodaeth Adran Ddigidol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Polisïau a mentrau

### Pencampwr Iaith Gymraeg Y Weinyddiaeth Amddiffyn

4. Ymddeolodd Comodôr yr Awyrlu, Dai Williams, fel Pencampwr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn ar 31 Hydref 2023 ar ôl gwasanaethu yn y rôl ers mis Tachwedd 2020. Gwnaethom ymgymryd â chwiliad cynhwysfawr ar draws graddau sy'n gyfwerth â rheng Milwrol 1* a gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) am siaradwr Cymraeg sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cylch Gorchwyl (TOR). Penderfynwyd mai Fiona Scott, SCS o fewn yr Asiantaeth Datblygu Llongau Tanfor, oedd yr ymgeisydd mwyaf addas a oedd yn bodloni'r meini prawf. Cynigiwyd y rôl i Fiona, ac fe'i derbyniodd, a chafodd ei phenodi'n briodol yn Bencampwr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn gan Paul Lincoln ar 1 Tachwedd 2023.

5. Mae Fiona yn mynd ati'n frwdfrydig i arwain y gwaith o ymgysylltu a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith ar draws yr Adran. Mae hi'n codi ymwybyddiaeth ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae eisoes wedi cyfeirio sawl uned at dîm y Cynllun Iaith er mwyn iddynt drafod cydymffurfio a gwasanaethau'r Cynllun Iaith.

### Llysgenhadon Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn

6. Mae'r Llysgenhadon yn parhau i fod yn llwyddiannus o ran cynyddu ymwybyddiaeth ar draws meysydd Cyllideb Lefel Uchaf yr Adrannau, a thrwy hynny

wedi cynyddu cydymffurfiad adrannau.  Byddwn yn parhau i ddiweddaru ac adnewyddu hyfforddiant Llysgenhadon y Cynllun Iaith bob blwyddyn.

**Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn**

7. Comisiynodd tîm y Cynllun Iaith archwiliad o gofnodion Adnoddau Dynol sifil a milwrol, gan gydymffurfio'n gaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data, a hynny ar gyfer personél a oedd wedi cofnodi cymhwysedd yn y Gymraeg ar eu cofnod Adnoddau Dynol.  Er bod cofnodi'r data hwn yn swyddogaeth wirfoddol, gwnaethom gysylltu â dros 175 o staff a oedd wedi dewis cofnodi eu gallu yn y Gymraeg i'w gwahodd i ymuno â'r rhwydwaith Arweiniodd hyn at y nifer fwyaf erioed yn dod i'n cyfarfod blynyddol ym mis Hydref a phob  sesiwn ddilynol o *Amser am Baned?.*

8. Mae tîm y Cynllun Iaith yn parhau i hwyluso sesiynau Amser am Baned?. Mae'r sesiynau hyn wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n bresennol eleni o ganlyniad i mwy o ymdrechion codi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu yn yr Adran. Mae'r sesiynau yn parhau i'n helpu i adeiladu cymuned gref a gweithgar o siaradwyr Cymraeg yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

9. Mae mwy a mwy o ddysgwyr Cymraeg a rhai sy'n dychwelyd i ddysgu yn dod i'r sesiynau Amser am Baned? , Felly mae'r tîm wedi addasu yn unol â hynny drwy ddewis pynciau sgwrsio symlach, gan ddefnyddio sleidiau PowerPoint i dynnu sylw at eirfa allweddol gan barhau i gynnal rhuglder. O ystyried y cynnydd mewn ymgysylltiad a brwdfrydedd, rydym wedi cynyddu'r slotiau amser ar gyfer y sesiynau i awr y mis.

10. Rydym bellach hefyd wedi sefydlu cadeirydd sy'n cael ei gylchdroi ar gyfer y sesiynau o blith siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y rhwydwaith.  Mae hyn wedi adnewyddu'r trefniadau ac wedi dod â syniadau newydd i'r amlwg.

11. Mae tîm y Cynllun Iaith yn hwyluso cyfarfod blynyddol gyda siaradwr allanol. Mae'n cael ei hysbysebu'n fewnol ar fewnrwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ogystal â'i gylchredeg i aelodau Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, i sicrhau bod unrhyw un yn yr adran yn gallu bod yn bresennol.   Eleni, fe wnaethom groesawu Alan Jones o Lywodraeth Cymru a gyflwynodd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd hyn o fudd mawr i Rwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan ysgogi llawer iawn o drafodaethau ystyriol yn ogystal â syniadau ar gyfer gweithgareddau a datblygiad yn y dyfodol.

12. Mae Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i redeg ei safle mewnrwyd Cyswllt Amddiffyn / Defence Connect sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan dîm y Cynllun Iaith gydag eitemau newyddion o ddiddordeb, hysbysiadau am gyfarfodydd sydd ar y gweill yn ogystal â grwpiau trafod ar gyfer aelodau'r rhwydwaith.  Mae'r dudalen fewnrwyd hon yn cael ei safoni gan Lysgenhadon y Gymraeg ac mae ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

**Grŵp Cynllun Iaith Gymraeg Whitehall Gyfan**

13. Mae tîm y Cynllun Iaith a Phencampwr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynychu grŵp chwarterol Cynllun Iaith Gymraeg Whitehall Gyfan i rannu syniadau, arferion gorau ac i gysylltu â'n cymheiriaid yn Adrannau Eraill y Llywodraeth. Caiff y fenter hon ei harwain gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## DARPARU GWASANAETHAU A SAFONAU GWASANAETH

### Archwiliadau cydymffurfiaeth a sesiynau ymwybyddiaeth yn Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru

14. Ymwelodd tîm y Cynllun Iaith â deg Sefydliad y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru eleni i gynnal archwiliadau cydymffurfiaeth. Archwiliwyd pob safle ar sail yr ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun Iaith, a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol ar y cyfan. Os oedd bylchau o ran cydymffurfio, mae cynllun gwella wedi cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei fonitro'n agos gan y tîm Byddwn yn cwblhau'r archwiliadau sy'n weddill yn 2024.

15. Gwnaethom hefyd gynnal tair sesiwn ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ar gyfer personél perthnasol yn sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru Roedd y sesiynau hyn yn ddifyr ac yn boblogaidd iawn.

### Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith

16. Rydym yn parhau i ddiweddaru a symleiddio Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith yn gyson ar fewnrwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn Mae Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith ar gael i bawb yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfiad, pa gamau gweithredu ac/neu asesiadau y mae'n rhaid eu cyflawni ynghyd â gwybodaeth gyswllt ar gyfer tîm y Cynllun Iaith a'r Llysgenhadon. Y dudalen yr ymwelwyd â hi fwyaf o hyd yw'r dudalen 'Cais am Gyfieithiad', ac yna'r dudalen 'Sut mae Cydymffurfio'.

### Cyfieithu

17. Mae ein perthynas waith gadarnhaol gydag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) yn parhau, ac mae'n cynnig gwasanaeth rhagorol. Rydym wedi profi rhywfaint o oedi wrth drefnu cyfieithiadau eleni oherwydd problemau staffio, ond mae'r rheiny wedi'u rheoli'n dda gan yr Uned.

18. Rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2023 mi wnaethom hwyluso'r gwaith o gyfieithu dros 200,000 o eiriau i'r Gymraeg. Mae'r gwaith hwn wedi dod o amrywiaeth eang o ffynonellau ac ar gyfer mwy o fformatau/gyfryngau a digwyddiadau, er enghraifft, Papur Gorchymyn Amddiffyn 2023, Taflen Ffeithiau i Blant RAF y Fali, llawlyfr Llwybr Epynt a thrawsgrifiad fideo ar gyfer arddangosfa stondin y gynhadledd DASA.

## Y flwyddyn i ddod: 2024

19.  Fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r Cynllun Iaith yn 2024, bydd tîm y Cynllun Iaith yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sefydlu gwersi Cymraeg lefel mynediad a lefel dechreuwyr. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar y cyd â Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, lle mae digon o ddiddordeb ymysg staff sy'n gwasanaethu ac aelodau o'u teuluoedd.

20.  Byddwn hefyd yn trefnu rhywfaint o sesiynau 'blasu' Cymraeg ar-lein ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn.

21.  Bydd tîm y Cynllun Iaith yn cwblhau'r archwiliadau sy'n weddill o Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru ac yn cwblhau'r gwaith yn erbyn y cynlluniau gwella presennol.

## I GLOI

22.  Rydym yn dal i ymrwymo i'r Cynllun Iaith ac i barhau i wella a mireinio ein polisïau a'n gweithgareddau mewnol ac allanol. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo'r Cynllun Iaith ar draws yr adran, drwy dyfu a gwella ein gwasanaethau'n barhaus ynghyd â chynnig canllawiau o ansawdd uchel i holl staff y Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu â'r gymuned Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Fel rhan o'r llwybr datblygu hwn, byddwn yn parhau i gynnal perthynas waith agos â Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa.